# Pwyllgor
# Ymgynghorol Harbwr
# Porthmadog

***10 Mawrth 2010***

***Adroddiad yr Uned Morwrol***

## *1 – <u>Ffioedd a Thaliadau</u>*

***1.1*** Mae'r ffioedd a'r taliadau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf 2010/11 wedi eu hanfon er cymeradwyaeth at y Swyddogion Statudol ac i'r Arweinydd Portffolio. Disgwylir y bydd yr Arweinydd Portffolio wedi cadarnhau'r ffioedd erbyn diwedd mis Chwefror/dechrau mis Mawrth. Er mwyn sicrhau bod ein cleientiaid yn gwybod am y taliadau a godir, mae'r Uned Morwrol wedi anfon copi o'r ffioedd a'r taliadau drafft i'r holl gleientiaid a'r dyddiad cau i ddychwelyd y ffurflenni Cais am Angorfeydd oedd 28 Chwefror 2010.

*1.2* Mae copi o'r ffioedd a'r taliadau sy'n ymwneud â harbwr Porthmadog wedi'i atodi. Bydd Aelodau yn sylwi mai'r argymhelliad yw peidio cynyddu'r ffi ar drigolion sy'n byw yng Ngwynedd yn barhaol yn 2010, tra bod y ffioedd a'r taliadau i'r rhai sy'n byw y tu allan i Wynedd yn cynyddu o **1%.** Yn anffodus, bydd ailgyflwyno TAW o 17.5% yn golygu cynnydd bach mewn costau i'r holl ddefnyddwyr.

*1.3* Rhagwelir bod y cynnydd mewn chwyddiant i bob harbwr yng Ngwynedd am 2010/11 yn negyddol ar -1.05% sydd wedi ei seilio ar fod y Cynnydd Cyflog nesaf yn 1%. Mae hyn yn cyfateb i ostyngiad bach yn nharged incwm cyffredinol yr Harbwr o £2,600 yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Bydd Aelodau'n ymwybodol bod y targed incwm ym Mhorthmadog wedi'i gyflawni neu yn agos at gael ei gyflawni yn y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, yn 2009/10, rhagwelir y bydd diffyg bychan yn yr incwm. Gan ystyried bod yr amgylchiadau economaidd byd-eang wedi newid yn ddiweddar, bydd angen i'r Uned Morwrol weithredu er mwyn sicrhau bod y gwariant cyffredinol a'r targedau incwm yn cael eu cyflawni heb gyfaddawdu ar y safonau ar gyfer ein cleientiaid.

*1.4* Nid yw'r ffioedd a'r taliadau sy'n ymwneud â lansio a chofrestru Cychod Pŵer a Cherbydau Dŵr Personol wedi cynyddu yn y flwyddyn ariannol nesaf. Atodir copi o'r ffioedd a'r taliadau ar gyfer Lansio Cychod Pŵer a'u Cofrestru ac mae'r ffioedd hyn yn aros yr un fath ag y buont am y deng mlynedd diwethaf gan fod y ffioedd lansio wedi cyrraedd eu huchafbwynt.

*1.5* Y cynnydd cyffredinol yn y targed incwm i'r Uned Morwrol am 2009/10 yw £9,070, sy'n cymharu gyda tharged uwch o £51,020 yn 2009/10. Mae hyn yn cynyddu targed incwm cyffredinol yr Uned Morwrol i £2,130,970 yn 2010/11.

## *2 - Cyllidebau*

***2.1*** Mae’r sefyllfa ariannol yn harbwr Porthmadog yn nhrydydd chwarter y flwyddyn ariannol hyd at 31ain Rhagfyr 2009 wedi’i atodi. Bydd yr aelodau yn nodi bod y targed incwm o ran harbwr Porthmadog am 2009/10 yn £78,700 ac mai’r cyfanswm incwm a gynhyrchwyd hyd ddiwedd mis Rhagfyr 2009 yw £71,856. Mae hyn o’i gymharu â chasglu £74,280 o incwm am yr un cyfnod y llynedd. Ni ragwelir y gellir cynhyrchu incwm sylweddol yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth ac felly ni ragwelir y gellir cyflawni’r taged incwm y flwyddyn ariannol hon. Rhagwelir y bydd y diffyg yn yr incwm ar gyfer harbwr Porthmadog hyd at 31ain Mawrth 2010 yn £5,800.

Fel y gwelir o’r manylion ariannol, mae’r gwariant hyd yma wedi rhagori ar y gyllideb neu yn agos at ragori ar y gyllideb dan nifer o benawdau. Rhagwelir y bydd gwariant ychwanegol yn ystod mis Mawrth ac mae’r dangosyddion ariannol allweddol ar gyfer y chwarter olaf yn rhagweld tanwariant o £13,300 yng nghyllideb harbwr Porthmadog erbyn diwedd mis Mawrth. Bydd y cyfanswm gwariant cyffredinol wedi cymryd cyfanswm y targed incwm i ystyriaeth. Er mwyn cefnogi harbyrau eraill sydd â diffyg incwm a gorwariant, bydd yn rhaid cyflawni arbedion pellach. Mae’n annerbyniol i’r gwariant fod yn uwch na’r gyllideb a ddyrannwyd ar gyfer yr holl wasanaeth gan fod yn rhaid adnabod unrhyw orwariant. Gall y fath orwariant a diffyg yn yr adenillion roi baich ariannol annerbyniol ar yr Awdurdod.

***2.2*** Fel y bydd Aelodau’n cofio, sefydlwyd y pennawd cyllid DG 53 12 01 (£12,270), er mwyn ymgymryd â gwelliannau bychan o fewn yr harbwr megis y raciau storio cychod gweini a gwblhawyd yn ddiweddar, ailosod cadwyni daear a chodwyr angorfeydd a gwelliannau i’r man storio yn yr harbwr.

*2.3* O ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol a’r gofyn i adnabod rhagor o arbedion, bydd 2010/11 yn flwyddyn heriol i’r Uned Morwrol ac yn arbennig i harbyrau a fethodd â chyfarfod y targedau incwm a’r targedau gwariant. Pwysleisir y bydd angen goresgyn y gorwariant ynghyd â’r diffyg mewn incwm yn enwedig o gofio am y gostyngiad cyffredinol sylweddol yn y gyllideb sydd ar gael i Gyngor Gwynedd a’r arbedion y bydd angen eu hadnabod yn y dyfodol.

## *3. Mordwyo- Angorfeydd*

3.1 Er bod y mwyafrif o’r cymhorthion mordwyo sy’n arwain at harbwr Porthmadog wedi aros yn eu lle yn ystod gaeaf 2009/10, roedd nifer o gymhorthion mordwyo allweddol wedi symud o'u lleoliad penodedig. Ymddangosodd newidiadau sylweddol yn y sianel gyferbyn â Chwt Powdwr ac mae’r Uned Morwrol yn cynghori morwyr i fod yn ofalus wrth fordwyo yn yr ardal hon. Os bydd y newidiadau yn parhau, mae’n debygol y bydd y sianel yn gwyro oddi wrth ei lleoliad bresennol a bydd yn ffurfio llinell syth o'r harbwr mewnol tuag at ardal y Bar.

3.2 Bydd cymhorthion tymhorol y gaeaf sydd yn eu lle ar hyn o bryd yn cael eu dychwelyd i’r lan cyn y Pasg pan y'u hadnewyddir gan y prif gymhorthion mordwyo. Ni wnaeth yr Uned Morwrol symud unrhyw rai o’r llusernau mordwyo sy’n rhoi cymorth ychwanegol i forwyr yn ystod misoedd y gaeaf.

3.4 Mae'r rhestr a ganlyn yn rhoi manylion y problemau a gafwyd gyda'r Cymhorthion Mordwyo yn ystod y gaeaf:-

Bwi Rhif 1 – Fe'i dychwelwyd i'r lan i'w gynnal a'i gadw ar 16/10/2009. Fe'i dychwelwyd i'w le ar ôl ei drin ar 16/10/2009.

Bwi Rhif 4 – Ddim yn ei le ar 23/11/09. Fe'i dychwelwyd i'w le ar ôl ei drin ar 17/12/09.

Bwi Rhif 4 – Ddim yn ei le ar 12/02/2010. Yn parhau felly.

Bwi Rhif 5 – Ddim yn ei le ar 12/10/2009. Fe'i dychwelwyd i'w le ar 16/10/2009.

Bwi Rhif 7 – Ddim yn ei le ar 02/11/2009. Fe'i dychwelwyd i'w le ar ôl ei drin ar 17/12/2009.

Bwi rhif 13 - Fe'i dychwelwyd i'r lan i'w drin ar 11/11/2009. Gosodwyd bwi dros dro yn ei le.

Bwi Rhif 14 – Ddim yn ei le ar 20/01/10. Yn parhau felly.

Bwi Arllwysfa Carthion Cricieth – Ddim yn ei le ar 18/11/2009. Yn parhau felly - cyfrifoldeb Dŵr Cymru.

Rhagwelir y bydd holl gymhorthion mordwyo harbwr Porthmadog yn eu lle cyn 1af Ebrill 2010. Mae'r Uned Morwrol wedi cael hawl gan Dŷ'r Drindod i Awdurdod yr Harbwr osod llusernau ar bob un o'r cymhorthion mordwyo.

Bydd y llusernau ychwanegol yn rhoi buddion ychwanegol i forwyr, yn enwedig yn y misoedd ar gychwyn y tymor ac ar ei ddiwedd. Rhaid pwysleisio na fydd yr Uned Morwrol yn medru gwarantu y bydd yr holl lusernau yn gweithio gydol yr amser gan fod ailosod a gwasanaethu llusernau yn dibynnu ar y tywydd.

3.5 Ar hyn o bryd, mae'r holl angorfeydd yn yr harbwr yn cael eu harchwilio a'u cynnal gan gontractwr wedi'i gymhwyso'n briodol. Mae'r gwaith hwn yn hanfodol er mwyn sicrhau cychod yn yr harbwr yn ystod y tymor hwylio. Gwahoddodd Cyngor Gwynedd gontractwyr cymwys i gyflwyno dyfynbrisiau am y gwaith a'r pris isaf am y gwaith cyfunol yn harbyrau Porthmadog a Phwllheli oedd £5,045. Bydd y gost o archwilio'r angorfeydd a'u cynnal a'u cadw ym Mhorthmadog yn £3,195. Nid yw hwn yn cynnwys costau'r cadwyni a'r angorau.

3.6 Bydd adroddiad cynhwysfawr ynghylch cyflwr yr angorfeydd ac ar y gwaith sydd i'w gwblhau ar bob un o'r angorfeydd yn cael ei ddosbarthu yn y cyfarfod gan y Swyddog Morwrol - Harbyrau a'r Harbwr Feistr. Yn ogystal, bydd adroddiad cynhwysfawr o'r gwaith a gwblhawyd ym mis Ionawr/mis Chwefror 2010 yn cael ei ddosbarthu yn y cyfarfod.

3.5 Cost y gadwyn angori a'r siaclau sydd i'w defnyddio ar gyfer cynnal a chadw'r angorfeydd a'r cymhorthion mordwyo o fewn harbwr Porthmadog yn ystod gwanwyn 2010 yw £1,460. Mae hyn yn sylweddol is na'r hyn oedd ei angen yn 2009 (£4,000) ac yn cymharu'n dda â'r gost gyfartalog dros y blynyddoedd diwethaf. Yn ychwanegol i'r uchod, roedd angen llusernau mordwyo a chyfanswm cost y llusernau newydd oedd £2,526.

3.6 Mae'r holl angorfeydd a leolir ar flaendraeth Borth y Gest wedi eu harchwilio gan yr Harbwr Feistr ac adroddodd ef na fydd unrhyw un o'r angorfeydd a leolir ar y blaendraeth angen ei symud y gaeaf hwn. Bydd yr Harbwr Feistr yn symud angorfeydd sydd wedi eu lleoli yn y sianel fordwyo yn ardal Borth y Gest. Cafodd angorfeydd yn yr ardal hon eu nodi yn rhai sy'n peri perygl mordwyo.

## *4 - <u>Staff</u>*

*4.1* Mae nifer o swyddogion o'r Uned Morwrol A Pharciau Gwledig yn parhau i fod ar secondiad mewn meysydd eraill o'r gwasanaeth. Yn ddiweddar, cyflwynodd Harbwr Feistr Porthmadog (ar hyn o bryd ar secondiad yn Harbwr Pwllheli) ei lythyr ymddiswyddo a bydd yn ymddeol o'i swydd ar y 31ain Mawrth 2010. Bydd ei ymddeoliad yn golled i'r gwasanaeth a byddwn yn colli ei brofiad a'i wybodaeth helaeth. Rydym yn hyderus y bydd Aelodau Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog yn gwerthfawrogi'r cyfraniad a wnaed gan yr Harbwr Feistr sy'n ymddeol.

*4.2* Hysbysebwyd swydd Harbwr Feistr Porthmadog yn fewnol yng Nghyngor Gwynedd a lluniwyd rhestr fer o'r ymgeiswyr. Cynhaliwyd cyfweliadau ar gyfer y swydd ar 11eg Chwefror a phenodwyd Harbwr Feistr newydd a bydd ef yn cychwyn ar ei ddyletswyddau ar 1af Ebrill 2010. Rydym yn hyderus y bydd Aelodau Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog yn gwerthfawrogi cyfraniad yr Harbwr Feistr Dros Dro a fu ar secondiad ym Mhorthmadog am y tair blynedd ddiwethaf. Bydd y swyddog yn cychwyn yn ei swydd fel Harbwr Feistr Pwllheli ar secondiad.

## 5 - *<u>Pecyn Cychod Ymwelwyr</u>*

5.1 Yn y cyfarfod blaenorol rhoddwyd cynnig o flaen yr Aelodau, sef cyflwyno 'Pecyn Croeso' i gychod sy'n ymweld â'r harbwr, gan gynnwys gwybodaeth am gyfleusterau'r harbwr, mwynderau lleol, llanw, bwytai, gwasanaethau brys ac ati.

5.2 Disgwylir y bydd yr holl gychod sy'n ymweld â Phorthmadog o'r 1af Ebrill 2010 ymlaen yn derbyn 'Pecyn Croeso'. Mae'r cynllun hwn i'w gyflwyno ym mhob harbwr ac mae pob Harbwr Feistr wedi cael cyfarwyddyd i sicrhau bod Pecyn Croeso cynhwysfawr o safon ar gael. Bydd yr Harbwr Feistr a'r Swyddog Morwrol - Harbyrau yn cyflwyno Pecyn Croeso Porthmadog i'r aelodau yn y cyfarfod.

5.3 Bydd yr Harbwr Feistr a'r Swyddog Morwrol - Harbyrau yn darparu dadansoddiad manwl i'r aelodau ar y nifer, LOA a dosbarth y cychod ymweld sydd wedi dod i harbwr Porthmadog yn 2009 a'r incwm a grëwyd mewn taliadau harbwr o ganlyniad.

## *6 - <u>Is Ddeddfau'r Harbwr</u>*

***6.1*** Cafodd Is-ddeddfau drafft Harbwr Porthmadog eu hailddrafftio yn dilyn sylwadau a anfonwyd i Gyngor Gwynedd gan yr Adran Drafnidiaeth ar ran y Gymdeithas Hwylio Frenhinol (RYA) a Thŷ'r Drindod. Yn unol â'r adroddiad a gyflwynwyd yn flaenorol i'r Aelodau, ymgorfforwyd diwygiadau yn unol â'r sylwadau a gyflwynwyd gan y rhai a enwyd uchod.

6.2 Rhagwelir y bydd fersiwn pellach o'r Is-ddeddfau drafft yn cael eu hanfon at yr Adran Drafnidiaeth yn ystod mis Ebrill 2010. Yn unol â disgwyliadau'r Aelodau, atodir drafft terfynol a byddant yn cael eu trafod gan yr Aelodau yn y cyfarfod.

6.3 Mae Cyngor Tref Porthmadog eisoes wedi cyflwyno'u sylwadau ar yr ohebiaeth a dderbyniwyd gan yr RYA. Roedd y sylwadau a dderbyniwyd gan yr RYA yn peri pryder i'r Corff Llywodraethol a gofynnwyd i'r Cyngor ystyried dileu Is-ddeddf 42 (2) (a) a (b).

6.4 Mae Cyngor Tref Porthmadog o'r farn bod angen cynnwys Is-ddeddf 42(1). Dylai aelodau nodi ei bod yn bosib na fydd modd cynnwys y diwygiadau a gyflwynwyd gan y Cyngor Tref yn y drafft terfynol.

## *7 – **<u>Offer Achub Bywyd Y Cob</u>***

7.1 Mae offer achub bywyd a leolir ar y Cob ym Mhorthmadog yn cael eu fandaleiddio yn ddyddiol. Mae'r gwregysau achub yn cael eu tynnu o'u casys bob dydd ac yn cael eu taflu i'r môr ac yn sgil hyn, ni ellid defnyddio'r offer pe bai eu hangen mewn argyfwng. Hysbyswyd yr Heddlu ac rydym yn hyderus y bydd Aelodau'n rhannu'r farn bod y fath fandaliaeth yn peri pryder. Nid oes gan yr Uned Morwrol adnoddau digonol i wirio'r offer achub bywyd bob dydd ac fe allent fod heb eu gwirio ac wedi eu tynnu o'u casys am ddyddiau lawer.